Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 20 Medi 2023 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol |
| **Awdur yr adroddiad** | Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Archwilio |
| **Teitl** | Cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2021/22 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae dyletswydd statudol ar y cyngor i baratoi datganiad cyfrifon sy'n cydymffurfio â'r safonau cyfrifo a gymeradwyir.  Mae'n rhaid i'r aelodau etholedig gymeradwyo'r cyfrifon a archwiliwyd yn ffurfiol ar ran y cyngor. Mae'r cyfrifoldeb hwn wedi cael ei dirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar gyfer 2021/22, yn amodol ar archwiliad, gan y Pennaeth Cyllid ac Archwilio ar 27 Mehefin 2022 (2 Awst y flwyddyn flaenorol). Cyflwynwyd y cyfrifon drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 27 Gorffennaf 2022 ac roeddent yn agored i'w harolygu'n gyhoeddus rhwng 15 Gorffennaf a 11 Awst. Dirprwywyd y cyfrifoldeb o gymeradwyo'r cyfrifon a archwiliwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae'r Datganiad o Gyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh). Mae Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus (CIPFA) yn cynhyrchu Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol, yn seiliedig ar y Safonau ac mae'r Cyngor wedi paratoi cyfrifon 2020/21 yn unol â'r Cod hwnnw.

Mae'r cyfrifon yn cynnwys barn gyfrifo a thystysgrif archwilio ddiamod. Bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn diweddaru'r Pwyllgor os bydd unrhyw faterion newydd i'w hadrodd.

# 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Nodi'r sefyllfa fel y cyflwynir yn yr adroddiad hwn a diweddaru Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn unol â hynny.

# 4. Manylion yr adroddiad

### 4.1 Cefndir

Fel yr eglurwyd yn flaenorol wrth gyfarfodydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae'r dasg o sicrhau y gallai Archwilio Cymru gymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2021/21 wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Yn gryno roedd hyn o ganlyniad i dri ffactor:

- Anawsterau adnoddau parhaus ar gyfer Archwilio Cymru a olygodd oedi i'r gwaith archwilio a nifer o newidiadau staff yn ystod yr archwiliad.
- Rhoddwyd diweddariad yng nghyfarfod mis Tachwedd 2022 ynglŷn â mater oedd yn effeithio ar holl awdurdodau lleol Cymru. Mae Cod Ymarfer Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth LASAAC ar gyfer Cyfrifeg Awdurdod Lleol yn y Deyrnas Unedig (y Cod) angen asedau isadeiledd i gael eu mesur yn defnyddio sail mesur cost hanesyddol a'u cario ar gost dibrisiad hanesyddol. Yn benodol, roedd yna bryderon oherwydd anawsterau ymarferol o roi'r cyfansoddiad cyfrifo ar waith ar gyfer cydnabod a pheidio â chydnabod cyfansoddiadau wedi'u newid ar gyfer asedau Isadeiledd mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad i asesu gwerth llyfr net y cyfansoddiad wedi'i newid ac wedi trin y cyfanswm ar gyfer y cyfansoddiad sydd wedi'i newid fel sero. Cafodd y mater ei ddatrys ar ddechrau mis Rhagfyr pan wnaeth Llywodraeth Cymru roi cymeradwyaeth i ddiystyru statudol mewn perthynas â'r broblem hon tra bod ateb parhaol yn cael ei ddatblygu o fewn y Cod, a fydd yn gwella'r broses o adrodd ar y sefyllfa ariannol yn y maes hwn. Gobeithio yn dilyn hyn y gallwn gwblhau'r cyfrifon ar gyfer naill ai cyfarfod Ionawr neu Fawrth.
- Rhaid cydnabod hefyd y bu problemau o ran prisio asedau a oedd yn benodol i Sir Ddinbych ac a oedd yn golygu llawer o waith i'w ddatrys - dyma beth sydd wedi achosi'r oedi pellach. Mae'r rhain wedi eu cynnwys yn adroddiad Archwilio Cymru felly nid ydynt wedi eu hailgynhyrchu yma.

Fodd bynnag, rydym wedi parhau i weithio’n agos gydag Archwilio Cymru i gytuno ar lwybr i gael barn ddiamod ar y cyfrifon a bu i ni ymrwymo ym mis Mawrth i sicrhau y byddai’r holl waith yn cael ei gwblhau er mwyn cyflwyno’r Cyfrifon Archwiliedig Terfynol i’r pwyllgor ym mis Medi.  Mae’n gadarnhaol iawn ein bod wedi llwyddo i gyrraedd y dyddiad terfynol diwygiedig hwn.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae cyhoeddi’r Datganiad Cyfrifon yn sail i stiwardiaeth a llywodraethu ariannol y Cyngor ac felly mae’n cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau’r cyngor.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Does dim costau uniongyrchol ychwanegol yn codi o ganlyniad i’r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o’r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Mae gweithdrefnau a phrosesau’r Cyngor sy’n sail i lunio’r cyfrifon yn cael eu hadolygu’n rheolaidd gan Archwilio Cymru.  Caiff barn broffesiynol ei cheisio oddi wrth nifer o ddisgyblaethau eraill y tu hwnt i gyllid, fel yr adain gyfreithiol, prisio eiddo, adnoddau dynol a phensiynau.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae’r Datganiad Cyfrifon yn elfen allweddol o fframwaith llywodraethu’r Cyngor. Mae'n bwysig bod aelodau etholedig yn cael eu sicrhau bod y cyfrifon wedi cael eu cynhyrchu yn unol â'r safonau perthnasol a bod y broses sy'n sail i gynhyrchu’r cyfrifon yn gadarn. Er ei bod yn siomedig bod yr amserlen wedi llithro eto eleni, rydym yn parhau i weithio’n agos gyda’n cydweithwyr yn Archwilio Cymru i sicrhau canlyniad boddhaol.

Hoffwn nodi fy niolch i holl dîm Cyllid CSDd a chydweithwyr Archwilio Cymru am weithio'n agos i gyflawni canlyniad boddhaol ar gyfer cyfrifon 2021/22.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Heb ymgymryd â'r gwaith ychwanegol ar y gofrestr ased, byddai'r Datganiad Cyfrifon yn destun cymhwyster archwilio drwy gyfyngiad oni bai y gellir datrys y materion yn foddhaol. Mae'n gadarnhaol fod y risg hwn bellach wedi ei osgoi.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

O dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn briodol. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r archwilydd penodedig archwilio ac ardystio cyfrifon y cyngor, a rhaid iddo fod yn fodlon bod y cyfrifon wedi cael eu cwblhau yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2018.